**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**
**Gwasanaethau Cymunedol**

# Diwallu Anghenion Addysgol Arbennig ym Merthyr Tudful

# 2013-2015

# ARWEINIAD I RIENI A GOFALWYR

**"Rhoi plant yn gyntaf ...**
**helpu ysgolion i wella"**





# CRYNODEB O AROLWG

## Anghenion Addysgol Arbennig ym Merthyr Tudful: Arweiniad i Rieni a Gofalwyr

### Polisi Anghenion Addysgol Arbennig a'r Cod Ymarfer

- Polisi CBSMT
- Beth yw AAA?
- Egluro'r Cod Ymarfer

### Delio ag AAA ym Merthyr Tudful

- Dan 5 oed
  - Dull Partneriaeth
  - Portage
  - Greenfield
- Cymorth i Ysgolion Cynradd
- Ysgol Uwchradd
- AAA 14+

### Y Broses Asesu Statudol


- Dulliau Asesu Statudol
  Beth yw Asesiad Statudol?
  - Gwasanaethau Partneriaethau Rhieni
  - Beth i'w wneud os bydd yr ALl yn gwrthod asesu.
  - Y Broses Asesu
- Y broses Llunio Datganiad – Cynnwys
- Nodyn yn Lle Datganiad
- Adolygiad Blynyddol y Datganiad
- Cynllunio Trosiannol
- Tribiwnlys AAA ac Apêl gan Rieni.

### Gwybodaeth ddefnyddiol

- Cysylltiadau Defnyddiol
- Cyrff Gwirfoddol Lleol a Chenedlaethol
- Geirfa

### Trefniadau Mynediad a Chludiant

- Mynediad i ddisgyblion ag AAA
- Mynediad i ddisgyblion â datganiad AAA
- Cludiant am ddim i ddisgyblion ag AAA mewn Darpariaeth Arbenigol



# CYNNWYS

**Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Polisi Anghenion Addysgol Arbennig | 3 |
| 2. | Beth yw Anghenion Addysgol Arbennig? | 7 |
| 3. | Y Cod Ymarfer | 8 |
| 4. | Ysgolion Prif Ffrwd ac Anghenion Addysgol Arbennig | 10 |
| 5. | Anghenion Addysgol Arbennig ym Merthyr Tudful | 11 |
| 6. | Plant o dan 5 oed | 12 |
| 7. | Anghenion Addysgol Arbennig mewn Ysgolion Cynradd | 14 |
| 8. | Anghenion Addysgol Arbennig mewn Ysgolion Uwchradd | 16 |
| 9. | Anghenion Addysgol Arbennig - 16 + | 17 |
| 10. | Darpariaeth ar gyfer Cyflawni Anghenion Addysgol Arbennig ym Merthyr Tudful | 18 |
| 11. | Gweithdrefnau Asesu Statudol | 20 |
| 12. | Canllawiau Cyngor i Rieni | 23 |
| 13. | Y Broses o Lunio Datganiad. | 24 |
| 14. | Adolygiad Blynyddol y Datganiad | 25 |
| 15. | Y Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig. | 26 |
| 16. | Trefniadau Mynediad a Chludiant | 27 |
| 17 | Cysylltiadau Defnyddiol | 28 |
| 18. | Sefydliadau Gwirfoddol Lleol a Chenedlaethol | 30 |
| 19. | Geirfa - geiriau a ddefnyddir yn aml mewn Anghenion Addysgol Arbennig. | 33 |




## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL
## POLISI ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

> “Yr un yw pwrpas addysg ar gyfer pob plentyn; yr un yw’r amcanion. Ond mae’r cymorth sydd ei angen ar blant unigol i gyflawni’r amcanion hynny’n wahanol”.
>
> (Adroddiad Warnock 1981 paragraff 1:4)
>
> Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau addysg o safon uchel a galluogi i bob plentyn gyflawni ei wir botensial.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn rhoi gwerth cyfartal ar bob plentyn ac yn ceisio sicrhau bod darpariaeth briodol ar gyfer plant a phobl ifanc o bob gallu.

Mae’r Awdurdod yn awyddus i hyrwyddo datblygiad personol pob disgybl yn y Fwrdeistref Sirol a bydd yn darparu cyfleoedd addysgol o safon i bob plentyn a pherson ifanc.

Mae’n cydnabod hawl plant a phobl ifanc i gwricwlwm eang, cytbwys, perthnasol ac amrywiol, gan gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol ar raddfa briodol. Gweithredir ar yr egwyddor hon, beth bynnag fydd, rhyw, hil ac anghenion arbennig yr unigolion.

Bydd Gwasanaethau Cymunedol (GC) yn anelu at gynorthwyo plant a phobl ifanc i dyfu’n annibynnol o ran addysg ac i ffurfio barn yn ogystal ag arddangos gofal am bobl eraill ac ymwybyddiaeth o’r hyn y gallan nhw eu hunain ei gyfrannu at gymdeithas a’i ddisgwyl ganddi.

Mae GC yn ymrwymo i egwyddor cynhwysiad cyhyd â bod hyn yn ystyried safbwyntiau rhieni/gofalwyr ac yn gydnaws â:

- bod plentyn neu’r person ifanc yn derbyn y ddarpariaeth addysgol arbennig angenrheidiol;
- darpariaeth addysg effeithiol ar gyfer y plant hynny y byddan nhw’n derbyn addysg yn eu plith;
- defnydd effeithiol o adnoddau.

Mae GC yn cydnabod y gall plentyn neu berson ifanc fod ag anghenion addysgol weithiau fydd yn galw am adnoddau ychwanegol. Bydd anghenion addysgol arbennig (AAA) plant a phobl ifanc, gan gynnwys plant cyn oed ysgol, yn cael eu canfod, eu cofnodi, eu hasesu a’u cyflawni gynted â phosibl a’u hadolygu’n gyson.

Cyflawnir anghenion pob plentyn a pherson ifanc ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif ffrwd lleol oni bai bod rheswm digonol i’r plentyn/person ifanc hwnnw gael darpariaeth amgen.



Bydd GC yn cynnal darpariaeth barhaus, hyblyg briodol i ateb anghenion addysgol arbennig plentyn unigol. Caiff anghenion addysgol arbennig y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc eu diwallu yn eu hysgol o fewn adnoddau'r ysgol.

Cydnabyddir bod rhai plant a phobl ifanc sydd ag anghenion sy'n galw am adnoddau ychwanegol; gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y ddarpariaeth addysgol arbennig yn gyson ac yn briodol ar gyfer yr holl blant o fewn y Fwrdeistref Sirol.

Ar gyfer y plant a phobl ifanc hynny sydd, am amrywiol resymau, ag angen addysg y tu allan i'r ysgol, sefydlwyd mentrau cynhwysol o fewn y Fwrdeistref Sirol. Dynodir lleoliadau yn y mentrau hyn ar ôl ymgynghori'n fanwl gyda'r rhieni a'r plant a'r bobl ifanc eu hunain.

Mae GC wedi ymrwymo i egwyddor cyfle cyfartal fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn elwa i'r eithaf ar y ddarpariaeth addysgol ac yn cyflawni eu llawn botensial.

Anogir rhieni a gofalwyr i rannu yn y broses o ganfod ac asesu anghenion addysgol arbennig eu plentyn. Byddan nhw'n rhan o'r penderfyniadau ar sut ac ymhle y gwneir y ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig ar gyfer y plentyn. Pan fydd hynny'n briodol, bydd y broses yn rhoi ystyriaeth lawn i farn y plentyn neu'r person ifanc ei hun.

Mae'r broses o gyfranogi'n cynnwys arweiniad i rieni a gofalwyr am eu hawliau statudol, y cymorth sydd ar gael iddyn nhw a sut i weithio mewn cydweithrediad ag ysgol eu plentyn. Mae GC yn cynnal ystod o wasanaethau canolog i gynorthwyo'r asesiad a'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r Gwasanaethau Cymunedol yn cydweithio'n glos ag asiantaethau eraill gan gynnwys y Gwasanaeth Iechyd a chyrff gwirfoddol; ystyrir darparu therapi cymorth meddygol a pharafeddygol yn gyfrifoldeb yr Ymddiriedolaeth Iechyd leol.

Mae GC yn cydnabod cyfrifoldeb sylfaenol Gwasanaethau Cymunedol i weithio mewn cydweithrediad ag ysgolion, gan eu hannog a'u cynorthwyo i ysgwyddo'u cyfrifoldebau dros addysg pob plentyn a pherson ifanc. Amlinellir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Addysg 1996, Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 a Chod Ymarfer AAA Cymru 2002.

Bydd GC yn darparu arweiniad, cefnogaeth a hyfforddiant angenrheidiol i lywodraethwyr, penaethiaid a staff, am eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o ran plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig.



Mae GPI yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i fonitro ac adolygu'n gyson y ddapariaeth addysg arbennig. Maen nhw'n cynnal gwasanaeth i ganfod Anghenion Addysgol Arbennig unrhyw blentyn neu berson ifanc mor drylwyr ac mor brydlon â phosibl. Yna, cynigir y cymorth angenrheidiol gan GPI yn ddioed. Adolygir ansawdd a'r defnydd a wneir o staff arbenigol ar draws y Fwrdeistref Sirol yn gyson.

Mae cynnydd pob plentyn neu'r person ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig yn cael ei fonitro'n fanwl a'i adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn. Trefnir ymgynghoriadau gyda rhieni a chydag unrhyw weithwyr proffesiynol yn ôl y galw.

**GWASANAETHAU**

**Gwasanaeth Seicoleg Addysg a Seicoleg Plant (ECPS)**

Mae gan yr ECPS swyddogaeth allweddol yn gweithio gydag asiantaethau eraill i ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig. Mewn amryw o achosion y seicolegydd addysg a phlant fydd pwynt cyswllt cyntaf y rhieni. Ar ôl asesu anghenion y plentyn, bydd yr ECP yn rhoi cyngor am y cam nesaf priodol.

Gwneir darpariaeth ar gyfer plant a gofalwyr sy'n dymuno i'w plentyn dderbyn asesiad yn ei iaith gyntaf.

Yn fynych iawn, daw plant cyn oed ysgol i sylw'r ECPS trwy gyfrwng y gwasanaethau iechyd a phlant, gyda chaniatâd y rhieni. Os bydd pryder, gynted ag y bydd plentyn wedi dechrau yn yr ysgol, gall y pennaeth ei gyfeirio at yr ECPS gyda chaniatâd y rhieni. Mae croeso i rieni gysylltu â'r ECPS ar unrhyw adeg pan fyddan nhw'n bryderus.

**Gwasanaeth Cymorth Dysgu**

Mae gan y Gwasanaeth Cymorth Dysgu gyfrifoldeb pwysig dros gynorthwyo ysgolion i ganfod, asesu a sicrhau darpariaeth addysgol arbennig ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig. Bydd y Gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth â phlant, teuluoedd, ysgolion a phobl broffesiynol o asiantaethau eraill i roi cymorth i blant a phobl ifanc.

Mae'r Gwasanaeth Cymorth Dysgu yn darparu cymorth peripatetig, ymgynghorol i athrawon ar gyfer:

- anawsterau dysgu;
- anawsterau llythrennedd gan gynnwys anawsterau dysgu penodol / dyslecsia;
- anawsterau iaith a lleferydd;
- anawsterau synhwyraidd;
- anawsterau corfforol a phroblemau symud.





**Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad**

Mae'r Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad yn darparu ymyriad cefnogol pan fydd plant a phobl ifanc â phroblemau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae'r Gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth â phlant, teuluoedd, ysgolion, seicolegwyr ac eraill i gefnogi plant a phobl ifanc trwy ystod o leoliadau ymyriad ac addysgiadol.

**Gwasanaeth Addysg a Chymorth i Blant sy'n Derbyn Gofal (LACES)**

Mae tîm LACES yn gweithio'n benodol gyda phlant sy'n derbyn gofal cyhoeddus drwy gynorthwyo'r grŵp bregus hwn i gynnal lleoliadau ysgol a mwyhau deilliannau addysgol a chyfleoedd bywyd.

**Gwasanaeth Hyfforddi Arbennig**

Mae'r gwasanaeth Hyfforddi Arbennig yn darparu addysg i blant a phobl ifanc sy'n methu â mynd i'r ysgol oherwydd afiechyd, anaf, beichiogrwydd, gwaharddiad neu resymau seicolegol.

**DARPARIAETH**

Mae gan y Gwasanaethau Cymunedol y ddarpariaeth ganlynol i gynorthwyo plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig:

i. Cynllun Cynghori Gartref Portage ar gyfer plant dan oed ysgol ag anghenion addysgol arbennig a'u teuluoedd.

ii. Canolfannau adnoddau dysgu mewn ysgolion prif ffrwd ar gyfer plant ysgolion cynradd 3 -11 oed sy'n araf eu datblygiad neu'n dioddef gan anawsterau dysgu dwys a chymhleth.



**Anghenion Addysgol Arbennig**

Mae gan blant a phobl ifanc anghenion addysgol arbennig pan fydd ganddyn nhw anghenion dysgu ychwanegol sy’n gofyn am ddarpariaeth addysgol arbennig.

Mae gan blant a phobl ifanc anhawster dysgu pan fyddan nhw:

(a) ag anhawster sylweddol fwy wrth ddysgu na mwyafrif eu cyfoedion; neu

(b) ag anhawster sy’n eu rhwystro rhag, neu’n ei gwneud hi’n anodd iddyn nhw wneud defnydd o’r math o adnoddau addysgol a ddarperir ar gyfer plant o’r un oed mewn ysgolion o fewn ardal yr awdurdod lleol.

(c) dan oed ysgol gorfodol ac o fewn diffiniad (a) neu (b) uchod neu’n debygol o fod o fewn y diffiniad yma pe na bai darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer.

Bydd gan blant a phobl ifanc anghenion a gofynion a all fod o fewn o leiaf un o’r pedwar maes canlynol hyn.

- cyfathrebu a rhyngweithio
- gwybyddiaeth a dysgu
- ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol
- synhwyraidd a/neu gorfforol

Os byddwch chi’n bryderus am addysg eich plentyn, a fyddech chi cystal â chysylltu â’r pennaeth neu â’r Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig (SENCO) yn eich ysgol leol.



**Cod Ymarfer**

Mae Cod Ymarfer AAA Cymru yn rhoi cyngor ymarferol i Awdurdodau Addysg Lleol, ysgolion a gynhelir, lleoliadau blynyddoedd cynnar ac eraill sy'n cyflawni dyletswyddau statudol i ganfod, asesu a darparu ar gyfer anghenion addysgol arbennig plant.

<u>Egwyddorion Sylfaenol</u>
Mae'r canllawiau manwl yn y Cod hwn yn seiliedig ar yr egwyddorion sylfaenol hyn a dylid eu darllen gan gofio'r canlynol:

- dylid cyflawni anghenion plentyn neu'r person ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig;
- dylid cyflawni anghenion plentyn neu'r person ifanc ag anghenion addysgol arbennig;
- cyflawnir anghenion addysgol arbennig plant a phobl ifanc fel arfer mewn ysgolion neu mewn lleoliadau prif ffrwd;
- dylid ceisio barn plentyn neu'r person ifanc a rhoi ystyriaeth i'r farn honno;
- mae gan rieni swyddogaeth bwysig i'w chyflawni o ran cefnogi addysg eu plentyn;
- dylai plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig gael mynediad llawn at addysg eang, cytbwys a pherthnasol yn seiliedig ar y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae plant blynyddoedd cynnar ar hyn o bryd yn dilyn y 'Cyfnod Sylfaen' i blant 3-7 oed.

<u>Blynyddoedd Cynnar</u>
Mae Cod Ymarfer AAA yn argymell ymateb graddol wrth fonitro cynnydd plant unigol trwy'r blynyddoedd cynnar. Pan fydd plentyn yn ymddangos fel pe na bai'n gwneud cynnydd naill ai'n gyffredinol neu mewn agwedd benodol ar ddysgu, mae'n bosibl y bydd yn rhaid rhoi cyfleoedd gwahanol neu ddefnyddio agweddau eraill at ddysgu.

<u>Cynllun Gweithredu Blynyddoedd Cynnar</u>
- Mae angen Cynllun Gweithredu Blynyddoedd Cynnar pan fydd gweithwyr proffesiynol, neu'r SENCO, yn canfod bod gan y plentyn, neu hwyrach bod gan y plentyn, anghenion addysgol arbennig
- Mae ymarferwyr yn gwneud ymyriadau sy'n ychwanegol at yr hyn a ddarperir fel rhan o gwricwlwm a strategaethau arferol y lleoliad neu'n wahanol iddyn nhw
- Bydd Cynllun Chwarae Unigol (IPP) wedi'i lunio.

<u>Cynllun Gweithredu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar</u>
- Bydd yr ymarferydd addysg gynnar sy'n gweithio o ddydd i ddydd gyda'r plentyn a'r SENCO yn derbyn cyngor a chefnogaeth gan arbenigwyr allanol.
- Hwyrach y bydd angen cyflwyno ymyriadau neu strategaethau ychwanegol at y rhai sy'n rhan o'r Cynllun Gweithredu Blynyddoedd Cynnar.
- Bydd IPP newydd wedi'i ddyfeisio.



Cynllun Gweithredu Ysgol – Cynradd ac Uwchradd
Pan fydd athrawon neu SENCO'n canfod bod gan blentyn neu berson ifanc AAA, dylai'r athro/athrawes dosbarth ddarparu ymyriadau sy'n ychwanegol at neu'n wahanol i'r rhai a ddarperir fel rhan o strategaethau gwahaniaethol arferol yr ysgol.

Dylid cofnodi yn yr IEP y strategaethau a ddefnyddir i alluogi'r plentyn neu'r person ifanc i ddatblygu.

Cynllun Gweithredu Ychwanegol Ysgol - Cynradd ac Uwchradd
- Mae'r SENCO a'r athro/athrawes dosbarth, ar ôl ymgynghori â'r rhieni, yn chwilio am gymorth gan wasanaethau allanol.
- Mae'r athro/athrawes dosbarth a'r SENCO yn derbyn cymorth neu gefnogaeth gan arbenigwyr allanol.
- Mae'n bosibl y bydd angen sefydlu ymyriadau neu strategaethau ychwanegol at rai'r Cynllun Gweithredu Ysgol.
- Bydd IEP newydd wedi'i ddyfeisio
- Bydd y SENCO yn arwain unrhyw asesiad pellach o'r plentyn neu'r person ifanc, gan gynllunio ymyriadau i'r dyfodol ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc mewn trafodaethau gyda chydweithwyr ac wrth fonitro ac adolygu'r gwaith a wnaed.

Asesiad Statudol Anghenion Addysgol Arbennig
Dylid cyflawni anghenion addysgol arbennig y mwyafrif llethol o blant neu bobl ifanc mewn lleoliadau prif ffrwd trwy Gynllun Gweithredu Blynyddoedd Cynnar a Chynllun Gweithredu Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar neu Gynllun Gweithredu Ysgol a Chynllun Gweithredu Ychwanegol Ysgol, heb fod yn rhaid i'r Awdurdod Lleol (ALl) gynnal asesiad statudol. Mewn nifer bychan o achosion, bydd yn rhaid i'r ALl gynnal asesiad statudol anghenion addysgol arbennig ac yna ystyried a ddylid llunio datganiad ai peidio.

Mae asesiad statudol yn cynnwys:

- Ystyriaeth gan yr ALl a fydd asesiad statudol o anghenion addysgol arbennig y plentyn yn angenrheidiol ai peidio, drwy gydweithio gyda rhieni, ysgol y plentyn neu'r person ifanc a, phan fydd hynny'n briodol, asiantaethau eraill.

Nid yw asesiad statudol ynddo'i hun yn arwain bob amser at ddatganiad. Gall y wybodaeth a gesglir yn ystod asesiad awgrymu dulliau lle gall ysgol gyflawni anghenion plentyn neu'r person ifanc heb fod yn rhaid wrth ddatganiad gan yr ALl yn mynnu darpariaeth addysgol arbennig.





**Darparu ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig**

I'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc, gwneir darpariaeth ar gyfer anghenion arbennig o fewn ysgolion prif ffrwd. Mae gan gyrff llywodraethol ysgolion gyfrifoldeb i sicrhau bod anghenion felly'n cael eu cyflawni o fewn yr adnoddau a ddynodir i'r ysgolion.

## POLISI ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG (AAA)

Mae'n rhaid i lywodraethwyr pob ysgol, ar y cyd gyda'r pennaeth, lunio polisi Anghenion Addysgol Arbennig sy'n amlinellu'r hyn y mae'r ysgol yn anelu at ei wneud i gynorthwyo disgyblion ag anghenion arbennig. Mae'n ofynnol iddyn nhw ddatgan bob blwyddyn, o fewn yr adroddiad blynyddol i rieni, pa mor llwyddiannus yw eu polisi AAA.

## CYDLYNYDD ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG (SENCO)

Mae'n ofynnol i ysgolion gael athro/athrawes enwebedig a elwir yn SENCO, sy'n gyfrifol am:

- weithredu'r polisi AAA o ddydd i ddydd;
- gydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig;
- ddiweddaru cofnodion AAA yr ysgol a goruchwylio'r holl gofnodion am blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig;
- drefnu a mynychu cyfarfodydd adolygu;
- gadw cysylltiad â rhieni disgyblion ag anghenion addysgol arbennig;
- gadw cysylltiad â phobl eraill sy'n gweithio gyda'r plentyn neu'r person ifanc, yn arbennig yr ECP ac aelodau'r Gwasanaeth AAA;
- gefnogi a chynghori athrawon eraill.

## COFNODION ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

Mae'n ofynnol i ysgolion gofnodi manylion am bob plentyn neu'r person ifanc a nodwyd ag anghenion addysgol arbennig. Caiff anghenion a chynnydd y plentyn neu'r person ifanc eu monitro a'u hadolygu. Dylid rhoi gwybodaeth gyson i rieni.

## CYNLLUNIAU ADDYSGOL UNIGOL (IEP)

Mae'n ofynnol i ysgolion baratoi Cynlluniau Addysgol Unigol (IEP) ar gyfer plant a phobl ifanc ar Gynllun Gweithredu Ysgol, Cynllun Gweithredu Ychwanegol Ysgol a'r rhai â datganiad anghenion addysgol arbennig.

Bydd yr IEP yn amlinellu'r gweithredu angenrheidiol i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc, gan gynnwys:

- y targedau tymor byr a osodwyd ar gyfer/gan y plentyn neu'r person ifanc,
- strategaethau addysgu i'w defnyddio
- sefydlu'r ddarpariaeth
- pryd y dylid adolygu'r cynllun
- meini prawf llwyddiant a/neu ei ddirwyn i ben
- deilliannau (i'w cofnodi pan adolygir yr IEP)
- Adolygir cynnydd y plentyn neu'r person ifanc ar ddyddiad wedi'i gytuno.

Gall eich plentyn fod yn un o thua 20% o blant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig ar ryw adeg yn ystod gyrfa ysgol.

Gallwch fod yn ceisio dyfalu sut addysg y bydd ef/hi yn ei chael a pha gymorth sydd ar gael.

Mae gan Merthyr Tudful ystod eang o gymorth i'w gynnig:

- bydd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn derbyn y cymorth angenrheidiol yn yr ysgol leol;
- bydd rhai plant a phobl ifanc yn elwa o'r ddarpariaeth a geir mewn dosbarth ag adnoddau arbennig mewn ysgol brif ffrwd;
- bydd angen darpariaeth arbennig Ysgol Greenfield ar rai plant a phobl ifanc;
- bydd angen lleoliadau mewn ysgolion y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol ar nifer bychan iawn o blant a phobl ifanc.

Pan fydd plant angen eu lleoli y tu allan i'r ysgol leol, mae'n bosibl y darperir cludiant pan fydd yr amgylchiadau'n cydymffurfio â meini prawf polisi cludiant yr ALl.

Polisi GPI Merthyr Tudful yw galluogi plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig i dderbyn eu haddysg mewn ysgolion lleol pan fydd hynny'n bosibl ac yn ddymunol, cyhyd â bod hyn yn rhoi ystyriaeth i farn rhieni ac yn gydnaws â:

- sicrhau'r ddarpariaeth addysgol arbennig sy'n angenrheidiol ar gyfer anhawster dysgu'r plentyn neu'r person ifanc;
- darparu addysg effeithiol i'r plant a'r bobl ifanc eraill yn y dosbarth neu'r ysgol;
- defnydd gorau o adnoddau, gan gynnwys amser cyfarpar ac athrawon.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y ddarpariaeth addysg arbennig yr un mor hygyrch i holl ddisgyblion Merthyr Tudful. Mae wedi'i chynllunio'n ofalus i hwyluso dilyniant rhwng cyfnodau, rhwng asiantaethau a rhwng darpariaeth brif ffrwd â darpariaeth arbenigol.





Mae amryw o gylchoedd chwarae ar gael lle gellir meithrin datblygiad eich plentyn trwy chwarae. Mae rhestr gyflawn ar gael gan y Swyddog Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, sydd wedi'i lleoli yn y Ganolfan Blant Integredig, Cwm Golau, Pentrebach (01685 727374).

Gall rhai plant cyn oed ysgol fod ag anghenion addysgol arbennig. Mae'n bosibl canfod ac asesu eu hanghenion dros gyfnod o amser. Os byddwch yn credu bod gan eich plentyn anghenion addysgol arbennig, ond nad yw eto yn yr ysgol, a fyddech chi cystal â chysylltu â'ch meddyg neu â'ch ymwelydd iechyd? Bydd ef/hi'n gallu cynnig cyfarwyddyd proffesiynol a chymorth ymarferol.

Cynigir cymorth trwy:

## 1. Y Gwasanaeth Portage

Mae Portage yn wasanaeth ymweld â chartrefi ar gyfer plant sy'n cael anawsterau gyda'u datblygiad. Bydd y swyddog Portage yn asesu anghenion pob plentyn ac, mewn partneriaeth â'r rhieni, yn adeiladu ar y sgiliau y mae'r plentyn eisoes wedi'u datblygu trwy raglen o weithgareddau strwythurol. Gall y swyddog Portage ymweld â'ch cartref yn gyson i weithio gyda chi a gyda'r plentyn. Mae'r gwasanaeth o dan oruchwyliaeth y Prif Seicolegydd Addysg a Phlant (PECP), sy'n derbyn ac yn ystyried pob achos a atgyfeiriwyd.

Gall rhieni gael mynediad at wasanaethau swyddog Portage trwy ofyn am asesiad gan yr Uwch Swyddog Clinigol Meddygol (SCMO), yn dilyn trafodaethau gyda'r meddyg neu gyda'r ymwelydd iechyd. Bydd yr SCMO, ar ôl ymgynghori â'r ECP, yn penderfynu a yw'r Gwasanaeth Portage yn briodol ai peidio.

## 2. Yr Athrawes Ymgynghorol

Mae'r athrawes ymgynghorol yn gweithio dan gyfarwyddyd y Pennaeth Gwella Ysgolion a'r PECP a'i swyddogaeth hi yw:

- trafod lleoli'r plentyn gyda chi;
- trefnu ymweliadau â'r ysgol;
- rhoi cymorth ymarferol;
- cefnogi rhieni a all dderbyn cais i gyfrannu tuag at lunio Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig.

Gall rhieni gael mynediad at wasanaethau'r athrawes ymgynghorol trwy gysylltu â'r Gwasanaeth ECP ac AAA ar (01685) 724642.

## 3. Athrawon Cymorth Arbenigol

Os oes gan eich plentyn anhawster clyw neu olwg, gall athrawon arbenigol:
- ymweld â'r cartref;
- weithio gyda'ch plentyn o oed ifanc iawn;
- gynnig cymorth a chyngor i'r teulu;
- ddarparu gwasanaeth i gylchoedd meithrin ac ysgolion.

## 4. Lleoliad mewn Dosbarth Meithrin neu Ysgol ALl

Rhoddir blaenoriaeth i blant ag anghenion addysgol arbennig, yn unol â Deddf Plant (1989). Fel cam cyntaf dylech gysylltu â'r ysgol leol a siarad â'r pennaeth.

## 5. Sylfaen Adnoddau Dysgu (LRB) y Cyfnod Sylfaen

Mae LRB y Cyfnod Sylfaen yn cynnig darpariaeth ar gyfer disgyblion blynyddoedd cyn ysgol tan ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

Gall plant brofi amrywiaeth o anawsterau gan gynnwys anawsterau dysgu a gall fod ganddyn nhw anghenion amryfal.

Gall lleoliad fod yn rhan amser neu'n llawn amser.


Mae LRB y Cyfnod Sylfaen wedi'u lleoli yn yr ysgolion canlynol ym Merthyr Tudful:

Ysgol Gynradd Goetre (2 ddosbarth)
Ysgol Gynradd Edwardsville
Ysgol Coed y Dderwen
Y 5 LRB – Cynnig y Cyfnod Sylfaen

- Cyfnod o arsylwi trwy addysgu (wedi'i gofnodi) am o leiaf ddau dymor; cofnodir yr arsylwi gan yr athro/athrawes dosbarth a CCD;
- Lefel uchel o adnoddau – 1 athro/athrawes i 8 plentyn;
- Cyfraniad arbenigol gan Seicolegwyr Addysg a Phlant, Athrawon Ymgynghorol a therapyddion;
- Cymorth i rieni, gan eu cynnwys yn fynych;
- Rhaglenni addysg unigol ac asesiadau unigol a gynhelir gan yr ysgol;
- Adolygiad amlddisgyblaeth o anghenion a chynnydd plant ar ddiwedd Tymor yr Hydref a Thymor y Gwanwyn;
- Cynllunio gofalus tuag at gyflenwi anghenion addysgol arbennig;
- Cynnwys plant, pan fydd hyn yn bosibl, mewn dosbarthiadau prif ffrwd am ran o'r cwricwlwm neu ar gyfer y cwricwlwm i gyd.
- Mae gan rieni a gofalwyr yr hawl i ofyn am asesiad statudol eu plentyn 2 flwydd oed + ag anghenion addysgol arbennig. Os bydd yr ALl yn cytuno bod hyn yn angenrheidiol, cynhelir asesiad;
- gall hyn arwain at Ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig. (Gweler adran 13 – Y Broses o Lunio Datganiad.)

## 6. Lleoliad yn Ysgol Greenfield

Gall plant a nodir fel rhai sydd ag angen darpariaeth ysgol arbennig yn ifanc iawn, fynychu Ysgol Greenfield.



Mae gan lawer iawn o blant a phobl ifanc anghenion dysgu ychwanegol ar ryw adeg yn eu bywyd ysgol. Y Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig (SENCO) yw'r person sy'n gyfrifol am gydlynu cefnogaeth ysgol a chadw cysylltiad ag asiantaethau allanol.

<u>**Cymorth gan ALl**</u>

1. **Seicolegwyr Addysg a Phlant**
   Mae Seicolegwyr Addysg a Phlant yn asesu anghenion dysgu, anghenion cymdeithasol ac anghenion emosiynol plant a phobl ifanc. Maen nhw'n asesu, yn cynghori ac yn cynorthwyo athrawon i baratoi rhaglen ar gyfer eich plentyn.

2. **Athrawon Ymgynghorol Anghenion Addysgol Arbennig ac Athrawon Cymorth Arbenigol**
   Mae gan Athrawon Ymgynghorol Anghenion Addysgol Arbennig ac Athrawon Cymorth Arbenigol brofiad o weithio ar draws continwwm anghenion arbennig. Maen nhw'n cynnig cyngor i athrawon, personél cymorth a rhieni. Bydd yr athrawon hyn yn cynorthwyo i lunio rhaglenni gwaith, yn cynghori ar y defnydd o adnoddau a thechnegau addysgu, ac yn rhoi hyfforddiant ar faterion sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig.

3. **Athrawon Cymorth Iaith**
   Gall disgyblion cynradd sydd â'u sgiliau llythrennedd yn araf yn datblygu, dderbyn cymorth ychwanegol gan Athro/Athrawes Cymorth Iaith a all fod yn y dosbarth neu mewn grwpiau bach wedi'u neilltuo.

4. **Cynorthwywyr Cymorth Dysgu**
   Mae gan rai ysgolion gymorth cynorthwyydd cymorth dysgu (CCD) sy'n gweithio ochr yn ochr â'r athro/athrawes yn y dosbarth. Maen nhw'n cynorthwyo plant a phobl ifanc gyda'u dysgu yn ogystal â gofalu am eu hanghenion corfforol.

5. **Athrawon Cymorth Ymddygiad**
   Mae gan Athrawon Cymorth Ymddygiad brofiad o ddarparu cymorth i blant a phobl ifanc sydd ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol. Bydd yr athrawon hyn yn cynorthwyo i lunio rhaglenni unigol ac yn cynghori ar y defnydd o adnoddau a thechnegau addysgu.

## DARPARIAETH MEWN YSGOLION CYNRADD:

- **Canolfannau Adnoddau Dysgu'r Cyfnod Sylfaen (LRB y Cyfnod Sylfaen)**
  Mae dosbarthiadau'n cynnig darpariaeth o'r blynyddoedd cyn ysgol hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

Bydd gan y plant amrediad o anghenion dysgu ychwanegol.

Mae plant yn y dosbarthiadau hyn yn derbyn cymorth amlddisgyblaeth o fewn amgylchedd yr ysgol.

Gall lleoliadau fod yn rhan amser neu'n llawn amser; fe'u hadolygir yn gyson.

Mae dosbarthiadau LRB y Cyfnod Sylfaen yn:
Ysgol Gynradd Goetre (2 ddosbarth)
Ysgol Gynradd Edwardsville
Ysgol Coed y Dderwen

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen gellir darparu ar gyfer anghenion y plentyn mewn amrywiaeth o leoliadau.

- **Canolfannau Adnoddau Dysgu Cyfnod Allweddol 2 (CAD CA2)**
  Mae dosbarthiadau i blant 7 - 11 oed wedi'u lleoli mewn rhai ysgolion iau a chynradd. Maen nhw'n darparu ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r gymhareb athro/disgybl yn uwch nag ydyw mewn dosbarthiadau prif ffrwd (1 athro/athrawes i 15 o blant). Mae gan bob dosbarth LRB gynorthwy-ydd cymorth dysgu (CCD).

  Lleolir Canolfannau Adnoddau Dysgu ac Adnoddau Cyfnod Allweddol 2 yn:

  Ysgol Gynradd Edwardsville
  Ysgol Gynradd Goetre (2 ddosbarth)
  Ysgol Gynradd Dowlais
  Ysgol Gymuned Twynyrodyn
  Ysgol Gynradd Ynysowen
  Ysgol Gynradd y Graig

  Hefyd, mae Canolfan Adnoddau Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol (CAACEY) yn Ysgol Gynradd Goetre.
  Mae lleoliadau'n seiliedig ar argymhelliad seicolegydd addysg a phlant ar ôl ymgynghori â'r rhieni a'r ysgol.

- **Dosbarth Iaith a Lleferydd**
  Mae'r dosbarth hwn yn darparu ar gyfer plant sydd ag anhawster iaith a lleferydd ac sy'n dangos tystiolaeth bod llawer o wahaniaeth rhwng sgiliau iaith a lleferydd a gallu mewn meysydd pwysig eraill.

- **Dosbarth Nam ar y Clyw**
  Mae'r dosbarth yn darparu ar gyfer plant sydd â nam ar eu clyw.

  Mae Dosbarth Iaith a Lleferydd a Dosbarthiadau Nam ar y Clyw wedi'i lleoli yn Ysgol Gynradd Ynysowen.

- **Dosbarthiadau Anawsterau Cyfathrebu**
  Mae dau ddosbarth yn darparu i blant gydag anawsterau cyfathrebu Mae'r dosbarthiadau hyn wedi'u seilio yn Ysgol Gynradd Caedraw. Mae un dosbarth ar gyfer disgyblion Cyfnod Sylfaen a'r llall i ddisgyblion CA2. Mae'r gymhareb athro/disgybl yn uwch nag ydyw mewn dosbarthiadau prif ffrwd: 1 athro i 8 o blant, a Chynorthwywr Cymorth Dysgu.

- **Ysgol Arbennig**
  Mae Greenfield yn ysgol ddydd sy'n darparu addysg ar gyfer plant a phobl ifanc ag ystod eang o anawsterau dysgu. Mae'n addysgu plant o 2-19 oed. Mae'r ysgol wedi'i rhannu'n adrannau cynradd, uwchradd ac ôl 16. Mae'r dosbarthiadau'n cynnig cymhareb athro/disgybl ffafriol.

- **Y Rhaglen Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS)**
  Mae EOTAS yn darparu rhaglen sydd wedi'i theilwra i anghenion addysgol a galwedigaethol disgyblion sydd ar ei chofrestr. Mae'n cynnig darpariaeth llawn amser a rhan amser i'r disgyblion hynny sy'n 11-16 oed sy'n cael anawsterau ymddygiadol mewn ysgolion. Mae athrawon yn EOTAS yn gweithio'n agos iawn ag ysgolion mewn addysgu'r pynciau craidd. Bydd gweddill y ddarpariaeth i'r disgyblion yma'n rhedeg drwy amrywiaeth o leoliadau wedi'u seilio'n bennaf mewn darparwyr allanol. Y darparwyr aml-asiantaeth sy'n cyfrannu ar hyn o bryd i'r rhaglen yma yw'r Gwasanaeth Ieuenctid, Cymry Ifanc, Catch 22. Yr enw arno gynt oedd YIP a Dysgu Seiliedig ar Waith ym Merthyr.

(I gael rhestr gyflawn o rifau cyswllt, gwelwch adran 10 -Cyflawni Anghenion Addysgol Arbennig ym Merthyr Tudful)

## • Adrannau Cymorth Dysgu mewn Ysgolion Cyfun

Mae pob ysgol gyfun yn gwneud trefniadau i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc sydd efallai'n dioddef amrywiaeth o anawsterau dysgu. Bydd polisi AAA pob ysgol yn rhoi manylion am eu darpariaeth. Mae'n bosibl hefyd y bydd ysgolion yn rhoi mwy o wybodaeth ac arweiniad mewn dogfennau fel llyfryn yr ysgol neu drefniadau mynediad i'r ysgol.

Mae gan bob ysgol uwchradd Gydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig (SENCO). (Gwelwch adran 4 – Ysgolion Prif Ffrwd ac Anghenion Addysgol Arbennig).

**Adrannau Cymorth Dysgu**

Ysgol Uwchradd Afon Taf
Ysgol Uwchradd Gatholig yr Esgob Hedley
Ysgol Uwchradd Cyfarthfa
Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre

Yn Ysgol Uwchradd Afon Taf mae uned arbenigol sy'n paratoi ar gyfer y disgyblion:


- sydd â nam ar eu clyw;
- y mae anhwylder iaith a lleferydd yn achosi'r anhawster mwyaf iddyn nhw.
- disgyblion gydag anawsterau cymdeithasol a chyfathrebu.

Yn Ysgol Uwchradd Cyfarthfa, mae addasiadau arbennig wedi eu gwneud i gyflawni anghenion y rhai ag anawsterau corfforol.

## • Ysgol Arbennig

Mae Greenfield yn ysgol ddydd sy'n cynnig addysg i blant a phobl ifanc ag ystod eang o anawsMae Greenfield yn ysgol ddydd sy'n cynnig addysg i blant a phobl ifanc ag ystod eang o anawsterau dysgu. Mae'n darparu ar gyfer disgyblion 2-19 oed. Trefnir yr ysgol yn adran gynradd ac uwchradd. Mae dosbarthiadau'n cynnig cymhareb athro/disgybl ffafriol.

(I gael rhestr lawn o rifau cyswllt, gwelwch adran 10 – Darpariaeth ar gyfer Cyflawni Anghenion Addysgol Arbennig ym Merthyr Tudful).



Mae rhai pobl ifanc, gan gynnwys y rhai sy'n mynychu Ysgol Greenfield, yn parhau i fynychu'r ysgol nes eu bod yn 19 oed. Mae Merthyr Tudful yn cefnogi'r cysyniad o ddysgu gydol oes gan gynnig cyfleoedd addysgol i bob plentyn a pherson ifanc.

Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn cyflogi Cynghorydd Gyrfaoedd Anghenion Arbennig sy'n cynnig cyngor ar ystod o opsiynau sydd ar gael i'r rhai sy'n gadael yr ysgol o 14+.

Rhif cyswllt - 01685 358180 - Jenny Miller, Canolfan Gyrfaoedd, 27 Y Stryd Fawr, Merthyr Tudful CF47 8DP.

Os ydy eich plentyn ar ddatganiad, mae hwn yn dal yn ddilys hyd nes y bydd yn gorffen yn yr ysgol.

Mae Adran Anghenion Addysgol Arbennig yng **Ngholeg Merthyr** sy'n darparu cyrsiau a chymorth i fyfyrwyr ag anawsterau dysgu.

Rhif cyswllt 01685 726037 – Judith Mulry

Mae **Ysgol Greenfield** yn cynnig darpariaeth achrededig unigol ôl 16 ar gyfer disgyblion o bob gallu ac mae'n derbyn cymorth gan Goleg Merthyr.





(I gael y manylion, gweler adrannau 7 ac 8)

**Cyfnod Sylfaen**
**Canolfannau Adnoddau Dysgu**

Ysgol Gynradd Goetre (2 ddosbarth), Ffordd y Griafolen, Ystâd y Gurnos, Merthyr Tudful
Ffôn: (01685) 351814

Ysgol Gymuned Abercannaid, Stryd Donald, Abercannaid, Merthyr Tudful
Ffôn: (01685) 351824

Ysgol Gynradd Edwardsville, Ffordd Caerdydd, Edwardsville, Treharris
Tel: (01443) 690478   Ffôn: (01443) 690478

Ysgol Coed y Dderwen, Ystad Gellideg, Merthyr Tudful
Tel (01685) 722916   Ffôn: (01685) 722916

**Anawsterau Cyfathrebu:**

Ysgol Gynradd Caedraw (2 ddosbarth), Ffordd Caedraw, Merthyr Tudful
Ffôn: (01685) 727482

**Dosbarth Iaith a Lleferydd**
**Dosbarth Nam ar y Clyw**

Ysgol Gynradd Ynysowen, Aberfan, Merthyr Tudful
Ffôn:  (01685) 728994

**Cyfnod Allweddol 2:**

Ysgol Gynradd Edwardsville, Ffordd Caerdydd, Edwardsville, Treharris
Ffôn: (01685) 351824

Ysgol Gynradd Goetre (2 ddosbarth), Ffordd y Griafolen, Ystâd y Gurnos, Merthyr Tudful
Ffôn: (01685) 351814

Ysgol Gynradd Dowlais, Y Stryd Fawr, Caeharris, Dowlais, Merthyr Tudful
Ffôn: (01685) 722286

Ysgol Gynradd Twynyrodyn, Teras Walter, Twynyrodyn, Merthyr Tudful
Ffôn: (01685) 351804

Ysgol Gynradd Ynysowen, Aberfan, Merthyr Tudful
Ffôn: (01685) 728994

Ysgol Gynradd y Graig, Cefn Coed, Merthyr Tudful
Ffôn: (01685) 723159

**Uwchradd**
**Adrannau Cymorth Dysgu**

Ysgol Uwchradd Afon Taf, Stryd yr Ywen, Troedyrhiw, Merthyr Tudful
Ffôn: (01685) 351830

Ysgol Uwchradd Gatholig yr Esgob Hedley, Ffordd Gwaunfarren, Merthyr Tudful
Ffôn: (01685) 722027

Ysgol Uwchradd Cyfarthfa, Cae Mari Dwn, Ffordd y Frenhines, Merthyr Tudful
Ffôn: (01685) 721725

Ysgol Uwchradd Pen-y-dre, Ystod y Gurnos, Merthyr Tudful
Ffôn: (01685) 351845

**Canolfan Adnoddau Dysgu Uwchradd ar gyfer Anawsterau Nam ar y Clyw, Iaith a Lleferydd a Chyfathrebu**

Ysgol Uwchradd Afon Taf, Stryd yr Ywen, Troedyrhiw, Merthyr Tudful
Ffôn: (01685) 351830

**Ysgol Arbennig**

Ysgol Arbennig Greenfield, Ffordd y Dyffryn, Pentrebach, Merthyr Tudful
Ffôn: (01443) 690468
Darpariaeth ar gyfer 3-19 oed

**Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol**

Ysgol Gynradd Goetre, Ffordd y Griafolen, Ystâd y Gurnos, Merthyr Tudful
Ffôn: (01685) 351814



## Beth yw asesiad statudol?

Ymchwiliad manwl yw hwn i ddarganfod yn union beth yw anghenion addysgol arbennig eich plentyn
Ymchwiliad manwl yw hwn i ddarganfod yn union beth yw anghenion addysgol arbennig eich plentyn
a pha gymorth ychwanegol sydd ei angen ar eich plentyn.

Bydd yr ALl yn ystyried yn ofalus iawn gynnydd eich plentyn yn yr ysgol a'r arweiniad yng Nghod Ymarfer AAA Cymru. Bydd yr ALl hefyd yn gwrando ar eich barn, barn eich plentyn ac ar farn yr ysgol am anghenion addysgol arbennig eich plentyn. Bydd yr ysgol neu'r lleoliad blynyddoedd cynnar yn dweud wrth yr ALl am unrhyw gymorth ychwanegol y mae eich plentyn wedi'i gael yn barod.

## Ychydig iawn o blant fydd angen asesiad statudol

## Mae eich Gwasanaeth Partneriaethau Rhieni lleol (SNAP) yno i'ch helpu ar unrhyw adeg

Os bydd yr ysgol, y gwasanaethau iechyd neu'r adran gwasanaethau cymdeithasol yn ystyried bod eich plentyn angen ei asesu/hasesu, byddan nhw'n gofyn am asesiad ar ôl ymgynghori â chi. **Gallwch chi** hefyd ofyn am asesiad statudol.

Bydd yr ALl yn ystyried a ddylid cynnal asesiad statudol ar eich plentyn a bydd yn ysgrifennu atoch yn:

- dweud wrthych ei fod yn ystyried a ddylid cynnal asesiad;
- egluro'r gweithdrefnau i'w dilyn;
- rhoi enw swyddog yr ALl a all roi mwy o wybodaeth i chi ('swyddog penodol');
- egluro eich hawl i gytuno neu i anghytuno â'r cynnig o fewn amser cyfyngedig ac yn eich gwahodd i anfon eich barn yn ysgrifenedig o fewn 29 diwrnod;
- egluro rôl y gwasanaethau partneriaethau rhieni lleol a'r cefnogwr rhieni annibynnol.
- Bydd yr ALl hefyd yn hysbysu:
- pennaeth ysgol neu leoliad addysgol eich plentyn;
- yr adran gwasanaethau cymdeithasol leol;
- yr awdurdod iechyd.

Bydd yr ALl yn edrych ar y cais am asesiad statudol a bydd yn dweud wrthych (fel arfer o fewn chwe wythnos) a fydd yn cynnal asesiad.



## BETH ALLWCH CHI EI WNEUD OS BYDD YR ALL YN PENDERFYNU PEIDIO AG ASESU EICH PLENTYN?

Os na fydd yr ALl yn penderfynu cynnal asesiad statudol ar eich plentyn, bydd yn rhaid iddo ysgrifennu atoch a rhoi ei resymau i chi ac i'r ysgol. Mae'n bosibl y byddwch chi neu'r ysgol yn teimlo bod yn rhaid gwneud mwy i gwrdd ag anghenion addysgol eich plentyn. Dylech siarad â'r ysgol i ddarganfod yr hyn y gellir ei wneud. Mae'n bosibl y bydd yn ystyried y byddai trefniadau gwahanol neu gymorth o'r tu allan yn briodol. Gallwch hefyd siarad â'r gwasanaeth partneriaethau rhieni lleol. Hyd yn oed os bydd yr ALl yn penderfynu nad oes angen asesiad statudol ar eich plentyn, gall eich plentyn ddal i gael cymorth ychwanegol. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi drafod hyn gyda'r ysgol.

Os bydd yr ALl yn penderfynu peidio â chynnal asesiad statudol a'ch bod yn anghytuno â'r penderfyniad, mae gennych hawl i apelio i'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig.

## YR ASESIAD

Os bydd yr ALl yn cynnal asesiad, bydd yn gofyn i nifer o weithwyr proffesiynol fynegi barn ar eich plentyn. Bydd yr ALl yn gofyn am gyngor:

- gennych chi, ac os bydd hynny'n briodol, gan eich plentyn
- gan ysgol neu leoliad addysgol cynnar eich plentyn
- gan seicolegydd addysg a phlant
- gan feddyg (fel arfer y paediatrydd yn y gymuned)
- gan y gwasanaethau cymdeithasol (fydd yn rhoi cyngor dim ond os byddan nhw'n adnabod eich plentyn)
- gan unrhyw un arall y mae'r ALl yn ystyried bod ei gyngor/chyngor yn briodol

Mae gennych hawl i fod yn bresennol yn unrhyw un o'r trafodaethau meddygol neu unrhyw brawf yn ystod yr asesiad statudol. Ond, weithiau, mae'n bosibl y bydd y gweithwyr proffesiynol yn gofyn am weld eich plentyn heb i chi fod yn bresennol. Mae plant weithiau'n ymddwyn yn wahanol pan fydd rhiant yn bresennol.

Dylech deimlo'n rhydd i awgrymu unrhyw berson neu sefydliad arall y teimlwch y byddai eu barn yn ddefnyddiol wrth asesu eich plentyn. Dylai'r ALl wedyn ofyn am eu barn. Mae'n bosibl hefyd i chi anfon unrhyw gyngor neu farn breifat a gawsoch am eich plentyn, at yr ALl. Dylai'r ALl ystyried y rhain fel rhan o'r asesiad. (Gwelwch Adran 14 - Canllawiau Cyngor i Rieni).

**Beth sy'n digwydd ar ôl yr asesiad?**

Mae'n bosibl y bydd yr ALl yn penderfynu bod angen nodi'r holl wybodaeth maen nhw wedi'i chasglu, mewn dogfen. Gall hwn fod yn Nodyn yn Lle neu'n Ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig.



- Nodyn yn Lle

Nid yw nodyn yn lle yn ddogfen gyfreithiol. Ar ôl yr asesiad, mae'n bosibl y bydd yr ALl yn penderfynu y gall ysgol eich plentyn gynnig cymorth ychwanegol i'ch plentyn heb fod angen datganiad. Fodd bynnag, bydd yr ALl wedi dysgu llawer iawn am anghenion eich plentyn o ganlyniad i'r asesiad statudol. Bydd y nodyn yn lle'n rhannu'r hyn y mae wedi'i ddysgu gyda chi a chyda ysgol eich plentyn gan argymell strategaethau ar gyfer cyflawni anghenion eich plentyn.

- Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig (Datganiad)

Mae datganiad yn ddogfen gyfreithiol. Mae'n disgrifio holl anghenion eich plentyn a'r holl gymorth ychwanegol y mae ei angen/hangen. Gall ysgol arferol eich plentyn fel arfer sicrhau'r cymorth hwn gyda chefnogaeth yr ALl.



Bydd eich cyngor yn rhoi gwybodaeth berthnasol a fydd yn gyfraniad gwerthfawr ac effeithlon i asesiad eich plentyn. Gall yr adroddiad fod mor hir neu mor fyr ag y dymunwch. Mae'n bosibl y gall ffrind neu aelod o'r teulu roi help llaw i chi ei ysgrifennu. Arwyddwch yr adroddiad a chadwch gopi. Os bydd yn well gennych, gallwch drafod eich barn gyda eich Cefnogwr Rhieni Annibynnol a all ysgrifennu'r adroddiad ar eich rhan gan roi copi i chi ei lofnodi (Gweler Adran 13 - Gweithdrefnau Asesiad Statudol, i gael manylion).

Gall y cyngor ddweud wrthym bopeth sy'n bwysig yn eich barn chi am anghenion, cryfderau ac anawsterau eich plentyn. Mae'n bosibl y byddwch chi'n teimlo ei bod hi'n ddefnyddiol mynegi eich barn am rai o'r pwyntiau canlynol.

Gwybodaeth am bethau sydd wedi digwydd ym mywyd eich plentyn a all fod yn bwysig i ni ei wybod. Iechyd cyffredinol eich plentyn - bwyta, cysgu, salwch difrifol, damweiniau, problemau gyda'r clyw neu'r golwg.

Sgiliau corfforol - cerdded, rhedeg, dringo, beicio, chwarae gêmau, tynnu llun, ysgrifennu, jig-sos ayyb.

Annibyniaeth bersonol eich plentyn – gwisgo, mynd o gwmpas.
Sgiliau cyfathrebu- sgwrsio â chi, egluro a disgrifio pethau, rhoi rhesymau, ymuno mewn sgyrsiau ayyb.

Beth mae eich plentyn yn mwynhau ei wneud gartref a thu allan i'r cartref?

Sut mae eich plentyn yn cyd-dynnu gydag aelodau eraill y teulu a chyda ffrindiau?

Beth mae eich plentyn yn ei wneud yn dda?

Sut mae eich plentyn yn ymddwyn gartref?

Pa bethau sy'n achosi pryder i'ch plentyn?

Sut ydych chi'n teimlo am y ffaith y gall yr ysgol ddelio â'r gofidiau a'r pryderon hyn?

Beth yw eich gobeithion ar gyfer eich plentyn, pan fydd yn yr ysgol ac ar ôl hynny?

Er bod adroddiad rhieni'n hynod o ddefnyddiol i'r ALl wrth gynnal asesiad, nid yw'n orfodol. Bydd yr asesiad yn symud ymlaen pan fydd y rhieni wedi rhoi caniatâd. Gallwch fynegi eich barn ar lafar i un o'r gweithwyr proffesiynol sy'n asesu a bydd y rhain yn cael eu nodi.

**Cynnwys Datganiad**

Cyn cwblhau’r datganiad terfynol, byddwch chi’n derbyn datganiad arfaethedig neu ddrafft. Bydd yr holl rannau a restrir isod yn cael eu cwblhau, heblaw rhan 4 (yn disgrifio’r math o ysgol a’i henw) a fydd yn wag.

**Rhan 1** Yn rhoi gwybodaeth am enw a chyfeiriad eich plentyn, dyddiad geni eich plentyn, ei fam/mam iaith a’i grefydd/chrefydd.

**Rhan 2** Yn rhoi manylion holl anghenion addysgol arbennig eich plentyn fel y nodwyd yn yr asesiad statudol.

**Rhan 3** Yn disgrifio’r:

- holl gymorth ychwanegol y mae’r AALl yn meddwl y dylai eich plentyn ei gael i gyflawni’r anghenion a restrir yn rhan 2;
- nodau tymor hir;
- trefniadau ar gyfer gosod goliau tymor byr, adolygu’n rheolaidd gynnydd eich plentyn tuag at y goliau hynny a sut mae cynnydd eich plentyn yn cael ei fonitro.

**Rhan 4** Yn eich hysbysu am yr ysgol y bydd eich plentyn yn ei mynychu i gael y cymorth ychwanegol a amlinellir yn Rhan 3 neu sut bydd unrhyw drefniadau’n cael eu gwneud y tu allan i oriau ysgol.

**Rhan 5** Yn disgrifio unrhyw anghenion anaddysgol sydd gan eich plentyn, fel y cytunwyd rhwng yr AALl a’r gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol neu asiantaethau eraill.

**Rhan 6** Yn disgrifio sut bydd eich plentyn yn cael cymorth i gyflawni’r anghenion anaddysgol a ddisgrifir yn Rhan 5.



**Adolygiad Blynyddol y Datganiad**

Bydd croeso bob amser yn ysgol eich plentyn i chi drafod unrhyw bryderon neu ofidiau. Bob blwyddyn, bydd yr ysgol yn adolygu'n ffurfiol gynnydd eich plentyn a gwahoddir chi i fynychu'r cyfarfod hwn.

Bydd y pennaeth yn gofyn i chi ac i eraill sy'n ymwneud â'ch plentyn am adroddiadau ysgrifenedig. Bydd targedau wedi'u gosod gan yr ysgol a bydd yr adolygiad yn ystyried y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r rhain. Cytunir ar dargedau newydd ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Mae'n bosibl y bydd pawb yn teimlo bod eich plentyn wedi gwneud cynnydd da fel na fydd angen cymaint o gymorth â chynt neu nad oes angen cymorth arbennig bellach. Yn yr Adolygiad Blynyddol, mae'n bosibl y byddan nhw'n gwneud newidiadau i'r datganiad ar sail y cynnydd a wnaed. Mae'n bosibl hyd yn oed na fydd angen y datganiad bellach.

Bydd yr ALl yn ysgrifennu'n ffurfiol atoch gydag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r datganiad presennol. **Bydd gennych 15 diwrnod i hysbysu'r ALl o'ch barn ar yr argymhellion.**

**ADOLYGIAD YM MLWYDDYN 9 - Yr Adolygiad/Cynllun Trosiannol**

Mae'r Adolygiad Blynyddol ym Mlwyddyn 9 yn hynod bwysig. Bydd yn ystyried opsiynau gan gynnwys lleoliad mewn coleg, hyfforddiant a phrofiadau gwaith. Bydd Gyrfaoedd Cymru'n cymryd rhan weithredol o hyn ymlaen ynghyd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol os bydd hyn yn briodol. Bydd pawb sy'n gweithio gyda'ch plentyn yn llunio Cynllun Trosiannol yn amlinellu'r opsiynau ar gyfer bywyd ar ôl 16. Mae eich barn chi a barn eich plentyn yn hynod o bwysig a byddan nhw'n cael eu hadlewyrchu yn y cynllun.

**AIL ASESU**

Mae'r adolygiad yn gyfle rhagorol i drafod anghenion addysgol eich plentyn a'r ddarpariaeth ar gyfer ei ddyfodol/dyfodol. Mae'n hynod o bwysig eich bod chi'n hapus ac yn cytuno ag unrhyw newidiadau arfaethedig a awgrymir. Os byddwch chi'n bryderus am unrhyw beth ac wedi trafod gyda'r ysgol, mae'n bosibl y byddwch chi'n gofyn am ail asesiad. Os bydd yr ALl yn cytuno ond heb gynnal asesiad yn ystod y 6 mis diwethaf, yna cynhelir ail asesiad.



**Beth yw'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig?**

Mae'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig yn gorff annibynnol sy'n clywed apeliadau'r rhieni yn erbyn penderfyniadau'r ALl ar asesiadau statudol a datganiadau.

Gallwch chi apelio i'r Tribiwnlys AAA os:

- bydd yr ALl yn gwrthod cynnal asesiad statudol ar eich plentyn ar ôl i chi ofyn iddyn nhw wneud hynny;
- bydd yr ALl yn gwrthod llunio datganiad ar gyfer eich plentyn ar ôl asesiad;
- byddwch chi'n anghytuno â rhan 2, rhan 3 neu ran 4 datganiad eich plentyn pan lunnir y datganiad cyntaf neu os bydd wedi'i newid yn ddiweddarach;
- bydd gan eich plentyn ddatganiad yn barod a bod yr ALl yn gwrthod asesu eich plentyn eto neu newid enw'r ysgol yn y datganiad hwnnw;
- bydd yr ALl yn penderfynu atal datganiad eich plentyn.

Lleolir y Tribiwnlys AAA yn Llandrindod. Mae'n bosibl y byddwch chi'n dymuno cysylltu â'r ALl neu'r Gwasanaethau Partneriaethau Rhieni i gael mwy o wybodaeth am y Tribiwnlys AAA.
Mae copi o'r llyfryn 'SEN Tribunal', ar gael oddi wrth:

Tribiwnlys AAA Cymru
Uned 32
Parc Menter Ffordd Ddole
Llandrindod
Powys
LD1 6PF
Llinell gymorth: 01597 829800
tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk



## TREFNIADAU MYNEDIAD

Mae trefniadau mynediad i blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ond heb ddatganiadau, yr un i bob disgybl. Ystyrir ceisiadau ar sail meini prawf mynediad yr Awdurdod. Ni fydd camwahaniaethu yn erbyn plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig oherwydd yr anghenion addysgol arbennig hyn.

Os bydd gan blentyn neu berson ifanc ddatganiad anghenion addysgol arbennig gan yr ALl, yr Awdurdod fydd yn gyfrifol am drefnu'r ddarpariaeth addysgol arbennig ac am ystyried addasrwydd yr ysgol wrth gwblhau'r datganiad neu ar ôl adolygiad blynyddol. Os bydd rhiant plentyn neu berson ifanc ar ddatganiad yn dymuno apelio yn erbyn yr ysgol a enwir yn y datganiad neu lle nad oes ysgol wedi'i henwi, gellir apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig (Cod Ymarfer Mynediad i Ysgolion y Swyddfa Gymreig -Ebrill 1999).

## CLUDIANT I BLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

Darperir cludiant am ddim i blant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig sydd angen darpariaeth arbennig nad sydd ar gael yn eu hysgolion lleol, beth bynnag fydd amgylchiadau'r teulu. Mae darpariaeth arbenigol yn cynnwys ysgol arbennig, canolfannau adnoddau arbenigol (Cyfnod Sylfaen a CA2), uned anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, uned gyfathrebu a'r uned nam ar y clyw.



Os ydych eisiau cysylltu â'r ysgol neu'r ALl yn ysgrifenedig, sicrhewch fod y llythyr wedi ei ddyddio a'ch bod yn cadw copi. Dylai manylion eich plentyn gael eu hysgrifennu'n glir, yn cynnwys enw, dyddiad geni, cyfeiriad ac ysgol.

Os ydych yn ffonio'r ysgol neu'r ALl nodwch fanylion y sgwrs.

Cadwch yr holl wybodaeth am eich plentyn gyda'i gilydd mewn ffolder, yn cynnwys yr holl lythyrau yr ydych yn eu hanfon a'u derbyn.

Yn ogystal â staff ysgol, fe all aelodau canlynol staff yr ALl fod o gymorth hefyd.

**Rheolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol -** Teresa Winiarski
(01685) 724642

Seicolegwyr Addysg a Phlant:

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg a Phlant yn cael ei arwain gan y canlynol:

| | |
|---|---|
| Prif Seicolegydd Addysg | Andrea Higgins |
| Uwch Seicolegydd Addys | Sue Jablonski |
| Uwch Seicolegydd Addysg | Hayley Jeans |

Gellir cysylltu â'r Gwasanaeth ar (01685) 724616 neu (01685) 724642

Tîm Cymorth Dysgu :

Prif Swyddog, Gweinyddu AAA, Asesiad Statudol, Lleoliad Ysgol Arbennig, Cymorth Rhieni/Teulu ac Addysg Ddewisol Gartref

Danielle Jones (01685) 724642

Athro Cynghorol, AAA (Clyw, Lleferydd ac Iaith, Anabledd Dysgu Penodol (Golwg) a Chymorth Iaith)

Alison Devereux (01685) 724616

Athro Cynghorol AAA - (Canolfannau Ymchwil Iaith, anawsterau Corfforol, Meddygol a Synhwyraidd, Blynyddoedd Cynnar a Throsglwyddo i'r Ysgol)

Lisa Beattie (01685) 724616

Athro Cynghorol AAA (Mapiau Darpariaeth, Cynlluniau Addysg Unigol, Cymorth Un i Un a Mwy Galluog a Thalentog)

Bethan Person (01685) 724616

## GWASANAETHAU / POBL YN YMWNEUD AG ASESIAD/DATGANIAD FY MHLENTYN

Bydd y ffurflen hon yn eich helpu i gadw cofnod o sefydliadau defnyddiol a phobl a gwasanaethau sy'n ymwneud ag asesiad eich plentyn.

| Enw (Person/ Gwasanaeth) | Cyfeiriad | Rhif Ffôn | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Athro/Athrawes Dosbarth | | | |
| Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig (SENCO) | | | |
| Pennaeth | | | |
| Seicolegydd Addysg a Phlant | | | |
| Athro/Athrawes Ymgynghorol | | | |
| Gweithiwr/wraig Portage | | | |
| Person Enwebedig | | | |
| Gweithiwr/wraig Iechyd | | | |
| Meddyg | | | |
| Therapydd Iaith a Lleferydd | | | |
| Arall | | | |



Mae nifer o sefydliadau sy'n darparu cyngor a gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anghenion arbennig. Am wybodaeth, cysylltwch â: Seicolegydd Gweithredol Addysg a Phlant, Tŷ Keir Hardie, Merthyr Tudful, Ffôn : 01685 724642 Ffacs: 01685 721965

**Clybiau Ar Ôl Ysgol a Chynlluniau Chwarae -** am wybodaeth ar fynediad i gynlluniau chwarae a chlybiau ar ôl ysgol

Diane James
Canolfan Wirfoddol Fforwm Chwarae,
89-90 Stryd Fawr, Merthyr Tudful CF47 8UH 01685 353963
playforum@welshnet.co.uk
neu

Cyswllt Christine Butler o 'Pontio'r Bwlch' - cynllun i ddisgyblion 11oed+
07870 855230

**Partneriaeth Barnardos Merthyr -** cynnig ôl-ofal i rai mewn angen. Cyfeiriad y ganolfan

56 Stryd Fawr Pontmorlais Merthyr Tudful

Cyswllt: Marion Hewitt
01685-382422

Gwasanaethau'n cynnwys:

**Gofalwyr Ifanc -** hybu hawliau gofalwyr ifanc.

Cyswllt: Vicky Bannon
01685-382422

**Cymdeithas Dyslecsia Prydain -** sicrhau bod pobl â dyslecsia yn derbyn addysg, help a chymorth i gyflawni eu potensial

Cyswllt: Llinell Gymorth
0845 2519002
www.bda-dyslexia.org.uk / helpline@bdadyslexia.org.uk

**Parlys yr Ymennydd** (Cymru Gyfan)

Cyswllt: Canolfan Therapi Plant Bobath (Cymru)

029 20 522600
www.bobathwales.org

**Tîm Plant ag Anableddau**

Cyswllt: Uned 5, Pentrebach, Merthyr Tudful CF48 4TQ
01685 727393

**Epilepsi Cymru –** i sefydlu gwasanaethau i bobl ag epilepsi.
Llinell Gymorth Epilepsi Cymru :
0800 2289016
www.epilepsy-wales.co.uk

**Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd –** darparu cyngor a gwybodaeth am ddim ar ystod eang o opsiynau gofal plant a gweithgareddau i blant 0-19 oed, eu teuluoedd a gofalwyr.

Cyswllt: 01685 727400
www.merthyrfis.org

Cymdeithas Mencap Merthyr – ymgyrchu dros well gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anabledd dysgu.

01685 721729

Sefydliad y Deillion Merthyr – darparu cyflogaeth a hyfforddiant i bobl anabl.

01685-370072
www.mtib.co.uk

M.T.I.B.
Uned 4, Parc Busnes Triongl,
Pentrebach, Merthyr Tudful CF48 4TQ

**Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth –** grŵp cymorth i athrawon/gofalwyr sy'n edrych ar ôl person ag awtistiaeth

02920 629312
www.autism.org.uk/wales cymru@nas.org.uk

**Rhieni Sy'n Gofalu –** grŵp sefydledig o rieni a gofalwyr ym Merthyr Tudful.

Cyswllt: Lynda Coombes
07780826655
lyndacoombes10@aol.co.uk

**Physically Handicapped and Able Bodied (PHAB), Merthyr Tudful –** hybu ac annog pobl ifanc gyda neu heb anableddau i integreiddio ym mhob agwedd o'r gymuned.

www.phab.org.uk



**Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB) –** darparu cyngor a chodi ymwybyddiaeth i bobl â nam ar y golwg.

Cyswllt: RNIB Cymru
029 20 450440
www.rnib.org.uk

Llys Trident, Heol East Moors.
Caerdydd CF24 5TD

**Gweithredu ar Golli Clyw (Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thrwm eu Clyw gynt (RNID)**
- gwella bywydau pobl fyddar a thrwm eu clyw trwy wybodaeth ac ymgyrchu.

Cyswllt: Ffôn testun 0808 808 9000
0808 808 0123
www.actionhearingloss.org.uk

Cyswllt: Sense: Cymdeithas Byddar Dall a Rwbela

0300 3309250
Ffôn testun 0300 3309251
www.sense.org.uk

**Scope Response**

Cyswllt: 02920 815450
www.scope.org.uk/wales-cymru

**Prosiect Cynghorol Anghenion Arbennig (SNAP) –** hybu partneriaeth gyfartal rhwng rhieni a gweithwyr proffesiynol.

0845 1203730
www.snapcymru.org

10 Coopers Yard,
Heol Curran,
Caerdydd CF10 5NB

Tîm Pontio i Gyflogaeth Anghenion Addysgol Arbennig – anelu at ysgogi pobl ifanc ac eraill yn eu bywyd i baratoi ar gyfer y dyfodol trwy weithio gyda nhw i godi dyheadau, cynyddu cyfranogiad mewn cyfleoedd cymdeithasol, dysgu, gwirfoddoli a chyflogaeth. Mae Merthyr Tudful yn un o 9 Awdurdod Lleol sy'n darparu'r gwasanaeth hwn.

Cyswllt: Karyn Morris
01685 724658

**Gwasanaeth Ieuenctid –** darparu ystod eang o gyfleoedd dysgu i bobl ifanc 11-25 oed

Cyswllt: 01685 727080

Darpariaeth Ieuenctid Canol y Dref
Adeilad Gorsaf Bysys,
Stryd y Castell Merthyr Tudful
CF47 8BB

**Grŵp Cymorth Awtistiaeth Tudful (TASG) –** darparu cymorth, cyngor ac arweiniad mewn perthynas ag addysg, gwasanaethau iechyd a hyfforddiant sydd ar gael i rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc ag anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig.

Cyswllt: Grŵp Cymorth Awtistiaeth Tudful
01685 350965
www.tasgnet.co.uk

Swyddfa 1, Melbourne Chambers
56 Stryd Glebeland
Merthyr Tudful

| | |
|---|---|
| Asesiad | Casglu gwybodaeth sy'n creu darlun o anghenion a chynnydd plentyn. |
| Cod Ymarfer | Arweiniad i ysgolion ac ALlau am y cymorth y maen nhw'n ei roi i blant ag AAA. |
| Cwricwlwm Cenedlaethol | Mae hyn yn amlinellu hawl clir, llawn a statudol i ddysgu i bob disgybl, mae'n penderfynu beth ddylid ei ddysgu ac yn gosod targedau cyrhaeddiad dysgu. |
| SEBD | Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol |
| ECP | Seicolegydd Addysg a Phlant |
| Rhai â Nam Clyw (HI) | Plant sydd wedi colli eu clyw. Gall fod dros dro neu'n barhaol, yn gymedrol neu'n ddifrifol. |
| IPP | Cynllun Addysg Unigol |
| IEP | Cynllun Addysg Unigol |
| IBP | Cynllun Ymddygiad Unigol |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| Anhawster Dysgu | Plentyn sy'n gwneud cynnydd arafach na mwyafrif y plant o'r un oed. |
| Ysgol Prif Ffrwd | Ysgol arferol |
| Ysgol a Gynhelir | Ysgol a gynhelir gan yr ALl. |
| Person Enwebedig | Y person o fewn yr AALl sy'n delio ag achos eich plentyn. |
| MLD | Anhawster Dysgu Canolradd |
| PMLD | Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog |
| AAA | Anghenion Addysgol Arbennig |
| SLD | Anawsterau Dysgu Difrifol |
| Darpariaeth AAA | Cymorth ychwanegol neu wahanol a roddir i blant ag anghenion addysgol arbennig. |
| Ysgol Arbennig | Ysgol sydd wedi'i threfnu'n arbennig i gynnig darpariaeth arbennig i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig. |
| Sp. L. D. | Anawsterau Dysgu Penodol (Dyslecsia) |



| | |
|---|---|
| Datganiad AAA | Dogfen sy'n dangos anghenion plentyn a'r holl gymorth ychwanegol y dylai dderbyn. |
| Cynllun Trosiannol | Cynllun a luniwyd ar ôl adolygiad blynyddol o'r datganiad ym Mlwyddyn 9. Mae'n amlinellu'r camau angenrheidiol i symud o'r ysgol i fywyd oedolyn. |
| Tribiwnlys | Corff annibynnol sy'n gwrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan yr ALlau ar asesiadau statudol a datganiadau. |
| Nam Golwg (VI) | Plentyn â nam ar y golwg. |
| Grwpiau Gwirfoddol | Elusennau, lleol neu genedlaethol, sy'n aml yn cynnig gwybodaeth a chymorth i rieni a theuluoedd pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig. |

